# Tasg 1-5

**(Heriol, sbardun 3)**

1. Ydych chi'n deall pob un o'r gwirebau neu ddiarhebion sydd yn y tabl?

2. Pa air neu eiriau sy'n amlwg iawn yn y tabl?

3. Efallai fod gan eich ysgol ddihareb neu wireb mewn iaith arall – e.e. Lladin. Os felly, ydych chi'n gwybod beth yw ei hystyr yn Gymraeg?

4. Edrychwch ar y diarhebion isod, a thrafodwch beth yw eu hystyr:

a) Lleufer dyn yw llyfr da. *(lleufer = golau, goleuni)*

b) Gorau cof: llyfr.

c) Gorau arf: arf dysg.

ch) Deuparth gwaith yw ei ddechrau. *(deuparth = dwy ran o dair, 2/3)*

d) Deuparth llwyddiant, diwydrwydd. *(diwyd = prysur, yr un gair sydd yn '**diwyd**iant')*

dd) A fo heb ei gof, a fo heb bopeth.

e) Arfer yw mam pob meistrolaeth.

5. Rydych chi eisiau newid delwedd eich ysgol. Lluniwch logo a gwireb/dihareb newydd. Os oes sawl grŵp yn gweithio ar wireb, gall pob grŵp wneud cyflwyniad byr yn esbonio'r logo a'r wireb.